



Elusen Iechyd Powys
Powys Health Charity



Cronfeydd Elusennol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y Flwyddyn a
Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2025

Rhif Cofrestru'r Elusen - 1057902

Cynnwys

Tudalen

Cyfeiriad a Manylion Gweinyddol	2-5
Adroddiad Blynyddol yr Elusen	5-28
Datganiad o Gyfrifoldeb Ymddiriedolwr	29-30
Adroddiad Archwilio	31-35
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	36
Mantolen	37
Datganiad o Lif Arian	38
Polisiau Cyfrifyddu a Nodiadau i'r Cyfrifon	39-47

Trefniadau Ymddiriedolwyr

Mae Cronfa Elusennol Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys (yr Elusen) wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau; mae Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys (BIA Powys) wedi'i ddynodi'n Ymddiriedolwr Corfforaethol.

Aelodau BIA Powys a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Mawrth 2025 oedd fel a ganlyn:

Aelodau Bwrdd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 2024/25	
Cadeirydd	Carl Cooper
Is-gadeirydd	Kirsty Williams
Prif Weithredwr	Hayley Thomas
Aelodau Annibynnol (AA)	
Cyllid	Steve Elliot (O 17/04/2024)
Awdurdod Lleol	Chris Walsh
Y Trydydd Sector	Jennifer Owen Adams
Prifysgol	Simon Wright
TGCh	Ian Phillips (Hyd at 22/08/2024)
Undeb Llafur	Cathie Poynton
Cyfalaf ac Ystadau	Mick Giannasi
Cyffredinol	Rhobert Lewis
Cyffredinol	Ronnie Alexander
Cyffredinol	Ian Thomas (O 06/01/2025)
Cyfarwyddwyr Gweithredol	
Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Gwybodaeth a Gwasanaethau TG, a Chyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gofal Sylfaenol	Pete Hopgood (Hyd at 16/05/2024)
Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Cyfalaf a Gwasanaethau Cymorth a Chyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gofal Sylfaenol	Pete Hopgood (O 17/05/2024 i 29/09/2024)

Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Cyfalaf a Gwasanaethau Cymorth	Pete Hopgood (o 30/09/2024)
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	Mererid Bowley
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Debra Wood-Lawson
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl Dros Dro	David Farnsworth (Hyd at 02/06/2024) ¹
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl Dros Dro	Joy Garfitt (O 01/04/2024 hyd at 30/09/2024) ²
Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	Elaine Lorton (O 30/09/2024)
Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu	Nicola Johnson (O 07/10/2024)
Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd	Claire Madsen (Hyd at 30/04/2024)
Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Gwyddor Iechyd a Digidol	Claire Madsen (O 01/05/2024)
Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu Dros Dro	Stephen Powell (Hyd at 06/10/2024) ³
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	Claire Roche (hyd at 06/03/2024)
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd, Iechyd Menywod ac Iechyd Teulu	Claire Roche (O 01/05/2024)

¹ Bu cyfnod o drosglwyddo rhwng DF a JG rhwng 06/05/2024 a 02/06/2024

² Roedd JG i ffwrdd ar absenoldeb wedi'i gynllunio o 01/04/2024 i 05/05/2024 gyda DF yn ymgymryd â'r Portffolio dros dro. Roedd JG hefyd yn absennol o 08/07/2024 i 30/09/2024, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd cydweithwyr Gweithredol eraill yn ymgymryd â'r Portffolio.

³ Arhosodd SP gyda'r Bwrdd Iechyd o 07/10/2024 - 20/10/2024 am gyfnod trosglwyddo i'r NJ newydd ei benodi.

Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Debra Wood-Lawson (Hyd at 30/04/2024)
Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant	Debra Wood-Lawson (O 01/05/2024)
Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Dr Kate Wright
Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd	Helen Bushell

Er mwyn cynorthwyo'r Ymddiriedolwr Corfforaethol i gyflawni ei ddyletswyddau statudol dan y gofrestrfa hon, mae Pwyllgor Cronfa Elusennol wedi'i sefydlu gyda phwerau dirprwyedig i reoli'r Elusen.

Aelodaeth Gyfredol y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol

Carl Cooper - Cadeirydd

Rhobert Lewis - Aelod Annibynnol

Cathie Poynton - Aelod Annibynnol

Pete Hopgood - Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Cyfalaf a Gwasanaethau Cymorth

Claire Madsen - Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthyn i Iechyd, Gwyddor Iechyd a Digidol

Swyddfa Gofrestredig

Swydd gofrestredig yr Elusen yw Ysbyty Bronllys, Bronllys, Aberhonddu, Powys, LD3 0LY.

Rhif Cofrestru

Mae'r Elusen wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau - Rhif Cofrestredig 1057902.04

Bancwyr

Banc Barclays
57 Stryd Frogmore
Y Fenni
Gwent
NP7 5AT

Archwiliadau Mewnol

Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru
Partneriaeth Gwasanaethau
Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
4-5 Charnwood Court
Heol Billingsley

Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QZ

Ymgynghorwyr Buddsoddi

Brewin Dolphin Ltd
12 Stryd Smithfield
Llundain
EC1A 9BD

Archwilwyr Allanol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Rhagair

Crëwyd yr Elusen yn ffurfiol ar 28^{ain} Mai 0048 gan 'Weithred Gymodi' a ddisodlodd Gronfa Elusennol Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys, a oedd wedi bod yn bodoli ers 26^{ain} Gorffennaf 1996.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102).

Mae adroddiad blynyddol a chyfrifon yr Elusen ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31ain Mawrth 2025 wedi'u paratoi gan yr Ymddiriedolwr Corfforaethol yn unol â Rhan VI o Ddeddf Elusennau 2011 a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2005 (Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP) 2015). Mae adroddiad a chyfrifon yr Elusen yn cynnwys yr holl gronfeydd elusennol a sefydlwyd ar wahân y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol amdanynt.

Manylion Gweinyddol

Mae gan yr Elusen gofrestrriad ymbarél gyda'r Comisiwn Elusennau lle mae cronfeydd wedi'u cofrestru gyda'i gilydd o dan un 'prif' rhif cofrestru. Mae cyfanswm o 74 o gronfeydd unigol yn cael eu cadw o fewn y cofnodion cyfrifyddu ar 31 Mawrth 2025, ac mae'r nodiadau i'r cyfrifon yn gwahaniaethu'r mathau o gronfeydd ac yn datgelu'r holl gronfeydd materol ar wahân.

Mae arian elusennol a roddir i'r Elusen yn cael ei dderbyn, ei ddal a'i weinyddu fel cronfeydd ac eiddo a gedwir ar ymddiriedolaeth at ddibenion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990.

Ymddiriedolwr

BIA Powys yw Ymddiriedolwr Corfforaethol y Cronfeydd Elusennol a lywodraethir gan y gyfraith sy'n berthnasol i Fyrddau Iechyd Lleol, yn bennaf Deddf Ymddiriedolwyr 2000 a hefyd y gyfraith sy'n berthnasol i Elusennau, sy'n cael ei llywodraethu gan Ddeddf Elusennau 2011.

Penodir cadeirydd ac aelodau annibynnol y Bwrdd gan Lywodraeth Cymru ac mae'r cyfarwyddwyr gweithredol yn cael eu penodi gan y Bwrdd.

Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn datganoli'r cyfrifoldeb am reolaeth barhaus yr elusen i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol sy'n gweinyddu'r gronfa ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol. Datgelir manylion yr Ymddiriedolwr Corfforaethol a'i Bwyllgor Cronfeydd Elusennol ar dudalennau 2 i 4.

Prif Ymgynghorydd Cronfa Elusennol i'r Bwrdd

O dan gynllun awdurdod dirprwyedig a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr Corfforaethol, mae gan Gyfarwyddwr Cyllid Gweithredol BIA Powys gyfrifoldeb am reoli'r Elusen, a'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yw'r prif swyddog sy'n goruchwyllo'r gwaith o reoli ariannol a chyfrifo o ddydd i ddydd ar gyfer y gronfa elusennol a'i chyfrifon elusennol penodol yn ystod y flwyddyn.

Ymgynghorwyr Proffesiynol

Mae'r prif gynghorwyr proffesiynol i'r Ymddiriedolwr Corfforaethol wedi'u manylu ar dudalen 4.

Strwythur Llywodraethu a Rheoli

Sefydlwyd cronfa anghyfyngedig yr Elusen gan ddefnyddio'r datganiad ymddiriedolaeth enghreifftiol. Roedd yr holl gronfeydd a gedwir ar ymddiriedolaeth ar ddyddiad y cofrestru naill ai'n rhan o'r gronfa anghyfyngedig hon neu wedi'u cofrestru fel cronfeydd cyfyngedig ar wahân o dan y brif Elusen. Mae rhoddion diilynol a dderbynnir gan yr Elusen sy'n briodol i'r cronfeydd gwreiddiol yn cael eu hychwanegu at falansau'r cronfeydd hynny o fewn yr Elusen bresennol. Lle mae cronfeydd wedi'u derbyn sydd â chyfyngiadau penodol unigryw wedi'u gosod gan y rhoddwr, mae cronfeydd anghyfyngedig (dynodedig) newydd wedi'u sefydlu.

Mae strwythur presennol y cronfeydd unigol yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r incwm a'r gwariant wedi'i ganolbwyntio lle mae cleifion yn derbyn gwasanaethau. Mae rheolwyr gweithredol yn rheoli'r arian a roddir i'w maes rheoli. Mae'r cronfeydd elusennol sydd ar gael i'w wario yn cael eu dyrannu i ardaloedd gwasanaeth o fewn strwythur rheoli BIA Powys. Er enghraifft, gwneir dyraniadau

penodol ar gyfer wardiau unigol ac ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol fel Gofal Lliniarol a Gwasanaethau Cardiaidd Aberhonddu.

Nid yw aelodau BIA Powys a'i Bwyllgor Cronfeydd Elusennol yn Ymddiriedolwyr unigol o dan y Gyfraith Elusennau ond yn gweithredu fel asiantau ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol. Derbynnir hyfforddiant a chyflwyniad priodol ar yr apwyntiad cychwynnol ac yna sesiynau datblygu cyfnodol i ddatblygu dealltwriaeth o'u rolau a chyfrifoldebau ymhellach. Darperir hyfforddiant ac ymwybyddiaeth anffurfiol drwy ystyriaeth reolaidd o faterion cronfeydd elusennol yng nghyfarfodydd Bwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol ac yn uniongyrchol i unigolion lle nodir materion ychwanegol.

Gan weithredu ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol, mae'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol y Cronfeydd Elusennol. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor:

- rheoli a monitro'r defnydd o adnoddau'r gronfa er budd y cyhoedd gan ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau,
- darparu cefnogaeth, arweiniad ac anogaeth ar gyfer ei holl weithgareddau codi incwm wrth reoli a monitro derbyn yr holl incwm,
- sicrhau bod 'arfer gorau' yn cael ei ddilyn wrth gynnal ei holl faterion gan gyflawni ei holl gyfrifoldebau cyfreithiol,
- sicrhau bod y Polisi Buddsoddi cymeradwy sydd wedi'i ymgorffori yn y Polisi Cronfeydd Elusennol a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol yn cael ei gadw a bod perfformiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd tra'n ymwybodol o ystyriaethau moesegol,
- cadw'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn llawn wybodus am weithgaredd, perfformiad a risgiau'r Elusen.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yw prif dderbynnydd cefnogaeth yr Elusen ac fe'i hystyrir yn barti cysylltiedig, gan ei fod yn gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen. Drwy weithio mewn partneriaeth â BIA Powys, defnyddir y cronfeydd elusennol i'r effaith orau ac felly wrth benderfynu ar y ffordd fwyaf buddiol o ddefnyddio cronfeydd elusennol, mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn ystyried ei brif weithgareddau, amcanion, strategaethau a chynlluniau. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn cyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol trwy sicrhau bod arian yn cael ei wario yn unol ag amcanion pob cronfa sydd wedi'i ddynodi i barchu dymuniadau penodol pob rhoddwr.

Mae'r Adran Gyllid yn Ysbyty Bronllys, Aberhonddu, Powys, LD3 0LY, yn ymdrin â chofnodion cyfrifyddu a gweinyddu'r gronfa o ddydd i ddydd.

Amcanion sylfaenol y Gronfa Elusennol

Sefydlwyd yr Elusen gydag amcanion ledled y GIG ar gyfer ei phrif gronfa a amlinellwyd fel a ganlyn:

"Bydd yr Ymddiriedolwr yn dal cronfa'r Ymddiriedolaeth ac yn cymhwyso'r incwm, ac yn ôl eu disgresiwn, cyn belled ag y caniateir, y cyfalaf, at unrhyw ddiben neu ddibenion elusennol sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "yr amcanion")."

Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio'r gronfa er budd cleifion a staff sy'n derbyn neu'n helpu i ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir gan BIA Powys yn unol â'r Weithred Ymddiriedaeth.

Mae'r Elusen yn cael ei hariannu gan roddion a/neu etifeddiaeth a dderbynnir gan gleifion, perthnasau a ffrindiau, y cyhoedd a sefydliadau allanol eraill. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn cyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol trwy sicrhau bod arian yn cael ei wario yn unol ag amcanion pob cronfa. Mae'r ymddiriedolwr yn parchu dymuniadau ein rhoddwyr i fod o fudd i ofal cleifion a hyrwyddo iechyd a lles da cleifion a staff a sicrhau bod yr holl wariant yn bodloni meini prawf budd y cyhoedd. Arfer yr Elusen yw darparu cymorth i gymuned BIA Powys a Phowys drwy'r dulliau canlynol: -

Gwariant ar Gleifion: trwy brynu offer, a darparu gwasanaethau a chyfleusterau nad ydynt fel arfer yn cael eu darparu gan neu yn ychwanegol at ddarpariaeth arferol y GIG.

Gwariant ar Staff: trwy gefnogi staff i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol i gleifion, trwy (er enghraifft) cyfleoedd addysg a hyfforddiant ychwanegol; a hwyluso a hyrwyddo ymchwil.

Offer Meddygol: trwy brynu offer yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir fel arfer gan y GIG.

Pan fydd newidiadau yn y broses o ddarparu gwasanaeth, neu pan fydd am ryw reswm arall yn dod yn anymarferol cynnal cronfa ar wahân, mae gan yr Ymddiriedolwr Corfforaethol ddisgresiwn terfynol, yn unol ag Adran 96 o Ddeddf y GIG 1977, i gymhwyso'r cronfeydd elusennol. Ei amcan, fodd bynnag, yw parhau i barchu dymuniadau'r rhoddwr.

Neges gan ein Cadeirydd

Mae'r flwyddyn hon wedi nodi cyfnod o newid a chynnydd sylweddol i Elusen Iechyd Powys. Roeddem wrth ein bodd yn croesawu Rheolwr Dros Dro newydd, y mae ei arweinyddiaeth wedi galluogi'r elusen i barhau i dyfu o nerth i nerth. Mae ein hymrwymiad i ddarparu'r cyfleoedd gorau i staff Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) a chymuned ehangach Powys wedi parhau wrth wraidd ein gwaith.



Fe wnaethon ni barhau i gyflawni ein cynllun grantiau bach, eleni o'r enw cynllun grant Bach, gan gefnogi iechyd a lles cleifion, staff, a'r gymuned ehangach. Yn ogystal, fe wnaethom lansio ymgyrch flynyddol newydd yn llwyddiannus, sef yr ymgyrch Dathlu'r Wyl trwy Godi Arian, a oedd â'r nod o sicrhau bod pob claf mewnol, preswlydd cartref gofal, darpar fam, a babi newydd yn derbyn anrheg feddylgar ar Ddydd Nadolig.

Mae ein partneriaethau â Chynghrair y Cyfeillion hefyd wedi ffynnu, gyda chyflwyniad cyfarfodydd chwarterol i gryfhau ein cenhadaeth gyffredin o gefnogi BIAP. Mae'r cydweithrediadau hyn wedi bod yn amhrisiadwy wrth wella'r gefnogaeth a ddarparwn ar draws ein cymunedau.

Er mwyn adlewyrchu amrywiaeth a bywiogrwydd Powys yn well, mae'r elusen wedi ymrwymo i ddatblygu ei llyfrgell ddelweddau ei hun. Ymwelodd ein tîm â phob safle ym Mhowys, gan gofnodi eiliadau dilys sy'n arddangos ein cymunedau lleol ac ymroddiad ein staff gweithgar. Mae'r fenter hon yn sicrhau bod ein hadnoddau gweledol yn cynrychioli'r bobl a'r lleoedd sydd gwirioneddol wrth wraidd ein gwaith.

Rydym yn estyn ein diolch o galon i'n holl gefnogwyr, aelodau staff, partneriaid a chydweithwyr GIG gwych sydd wedi cyfrannu at dwf parhaus yr elusen dros y flwyddyn ddiwethaf. Gyda'ch cefnogaeth barhaus, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn pobl, prosiectau a phartneriaethau sy'n gwella iechyd a lles ein cleifion, staff a'r boblogaeth ehangach.

Dr Carl Cooper,

Cadeirydd Powys Teaching Local Health Board a

Phwyllgor Cronfeydd Elusennol BIAP

Ein gweledigaeth

Fel elusen ymroddedig y GIG ar gyfer Powys, mae gennym gyfrifoldeb i gefnogi staff a chleifion BIA Powys a'r gymuned ehangach. Mae gennym hefyd gyfle i ddatblygu partneriaethau newydd rhwng y sectorau iechyd cyhoeddus a'r sectorau iechyd gwirfoddol. Gall ein Helusen fod yn gatalydd ar gyfer prosiectau a rhaglenni partneriaeth sy'n helpu lleihau nifer y bobl sy'n mynd yn sâl ac sydd angen ymyrraeth iechyd statudol ac yn helpu gwella iechyd a lles y rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor.

Mae gweithlu'r GIG yn darparu'r sylfaen ar gyfer gofal iechyd ym Mhowys. Trwy gefnogi a darparu ar gyfer amgylchedd gwaith gwell a chanlyniadau gwell i staff y GIG, bydd ein Helusen yn helpu sicrhau canlyniadau gwell i gleifion y GIG a'u teuluoedd.

Lle bo hynny'n bosibl, bydd Elusen Iechyd Powys yn ceisio dysgu oddi wrth y sefydliadau trydydd sector mwyaf dylanwadol ac effeithiol o bob cwr o'r DU, yn enwedig y rhai ym maes gofal iechyd a chymorth meddygol ac elusennau sy'n rhoi grantiau blaenllaw. Yn fwy lleol, bydd yr Elusen hefyd yn ceisio gweithio gydag elusennau byrddau iechyd eraill yng Nghymru ar faterion perthnasol ac i gydlynu ymgyrchoedd a chyfathrebu ar gyfer yr effaith ehangaf bosibl.

Mae'r rhwydwaith cymorth sydd wedi'i greu a'i gynnal gan Elusennau'r GIG Gyda'n Gilydd dros y tair blynedd diwethaf wedi caniatáu mwy o gydweithio rhwng elusennau'r GIG. Bydd cynnal perthynas gref a deialog agored, yn enwedig gyda chydweithwyr GIG Cymru a'r trydydd sector, yn sicrhau bod Elusen Iechyd Powys mor wybodus, ymatebol ac effeithiol â phosibl yn ei maes.

Ein gwerthoedd

Nod Elusen Iechyd Powys yw cefnogi iechyd a lles staff, cleifion a chymunedau ledled Powys. Lle bynnag y bo modd, bydd Elusen Iechyd Powys yn ymdrechu i gefnogi iechyd a lles pobl Powys wrth gadw at y gwerthoedd canlynol:

Yn Hygyrch

- Sicrhau bod buddsoddiad yr Elusen mewn gofal iechyd lleol yn dod o fudd i'r gymuned, y GIG ehangach a thu hwnt, lle bo hynny'n bosibl.

Yn Gydweithiol

- Edrych i gefnogi prosiectau gwella iechyd a meithrin partneriaethau sy'n galluogi pobl i fyw bywydau iach.

Yn Gynhwysol

- Cofleidio cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy sicrhau bod yr Elusen oddi wrth bobl Powys, ganddynt ac ar eu cyfer.

Yn Arloesol

- Chwarae rhan allweddol yn natblygiad gofal iechyd gwell ym Mhowys.

Yn Gynaliadwy

- Defnyddio asedau presennol a dyfodol yr Elusen i gryfhau ei blaenoriaethau strategol a sicrhau effeithiau hirdymor cadarnhaol ar gyfer Powys.

Datblygu blaenoriaethau strategol newydd a chyflawniadau allweddol

Mae'r blaenoriaethau a'r amcanion canlynol wedi'u sefydlu i amlinellu hunaniaeth glir a chyson ar gyfer ein Helusen. Byddant yn helpu adeiladu ein proffil a chynyddu effaith ein gwaith drwy ymgysylltu mwy â'n cymunedau a mwy o fuddsoddiad strategol. Fe'u datblygwyd i helpu sicrhau bod Elusen Iechyd Powys yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gynaliadwy am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth hon wedi'u nodi drwy ymgynghori â rhanddeiliaid yr Elusen, sy'n cynnwys staff ac aelodau'r Bwrdd BIAP, partneriaid trydydd sector, cleifion a'u teuluoedd, yn ogystal ag aelodau'r gymuned. Maent yn adlewyrchu disgwyliadau ein rhanddeiliaid o'r hyn y gall Elusen Bwrdd Iechyd Powys ei gyflawni ac maent yn gysylltiedig ag amcanion strategol Cynllun Tymor Canolog Integredig (IMTP) Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 2022-2025.

Dangos Arweinyddiaeth Gyfrifol	
Beth ddywedodd ein Rhanddeiliaid:	Yr hyn y byddwn yn ei gyflwyno:
<i>Sicrhau bod Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n gyfrifol er mwyn cyflawni gwelliannau iechyd a lles cynaliadwy am flynyddoedd lawer i ddod ym Mhowys.</i>	<ul style="list-style-type: none">- Ymrwymiad i wneud penderfyniadau cyflym ac ymatebol wrth gynnal safonau uchel o lywodraethu da.- Cynnydd yn y raddfa o weithrediadau Elusennau sy'n sicrhau cynaliadwyedd a hyfywedd hirdymor.- Rhaglenni cyllido grant newydd i ymateb i flaenoriaethau iechyd a lles sy'n dod i'r amlwg mewn modd amserol.

	<ul style="list-style-type: none"> - Canllawiau ychwanegol sy'n caniatáu i staff BIAP ac aelodau annibynnol lywio a gweithio ochr yn ochr â'r Elusen yn rhwydd. - Adolygiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu a thendro presennol, archwiliad ar gyfer gwendidau a gweithredu effeithlonrwydd gweithredol. - Strategaeth fuddsoddi hirdymor glir sy'n mabwysiadu dull cyfrifol a chytbwys o ymdrin â risg a'r rheidrwydd moesegol. - Strategaeth codi arian hirdymor glir i arallgyfeirio ffrydiau incwm a chynnal cynaliadwyedd ariannol. - Rhaglen gadarn o werthuso ar gyfer pob prosiect a gweithgaredd Elusennol i fesur effaith, dylanwad ac effeithiolrwydd Cronfeydd Elusennol ym Mhowys.
--	--

Yn gysylltiedig ag Amcanion IMTP BIAP:

25. Gweithredu blaenoriaethau gwella llywodraethu allweddol sy'n ymgorffori rheoli risg, polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau effeithiol; archwilio ac effeithiolrwydd; effeithiolrwydd y Bwrdd a systemau atebolrwydd.

Cynnal ein Cenhadaeth Ddinesig

Beth ddywedodd ein Rhanddeiliaid:	Yr hyn y byddwn yn ei gyflwyno:
<p><i>Mae rôl arweinyddiaeth ddinesig hanfodol sydd gan y Bwrdd Iechyd a'r Elusen o fewn y gymuned, sydd angen bod yn flaenoriaeth allweddol.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> - Gwell canlyniadau i gymunedau sy'n cael trafferth gydag amddifadedd economaidd-gymdeithasol ym Mhowys (diffyg mynediad at wasanaethau, diffyg seilwaith digidol digonol neu anghyfartaledd daearyddol). - Mwy o hygyrchedd a chyfleoedd mwy teg ar gyfer hyfforddiant, cymorth a gyrfaoedd economi sylfaenol ym Mhowys. - Ymrwymiad i ymgorffori mentrau amgylcheddol a chynaliadwyedd rhagweithiol ym mhob gweithgaredd Elusennol.

	<ul style="list-style-type: none"> - Cydweithio â gwasanaethau BIAP presennol i sicrhau eu bod yn gynaliadwy.
<p><u>Yn gysylltiedig ag Amcanion IMTP BIAP:</u></p> <p>1. Gweithredu er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd y boblogaeth</p> <p>17. Gwella rôl y bwrdd iechyd mewn partneriaeth a dinasyddiaeth, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a gyrfaoedd gofal iechyd.</p> <p>20. Gweithredu ymrwymiadau uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon, gwella bioamrywiaeth a lles amgylcheddol.</p>	
<p>Gwella Gwasanaethau'r GIG</p>	
<p>Beth ddywedodd ein Rhanddeiliaid:</p>	<p>Yr hyn y byddwn yn ei gyflwyno:</p>
<p><i>Gall yr Elusen ddarparu cyfleoedd trawsnewidiol ar gyfer dysgu, hyfforddiant a mentrau a all wella'r amgylchedd gwaith i staff yn fawr a gwella profiad cleifion.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> - Profiad gwell i gleifion, yn enwedig i'r rhai sy'n treulio amser hir mewn ysbytai cymunedol. - Mwy o wasanaethau'r GIG sydd wedi'u galluogi'n ddigidol trwy ddarparu cit ac offer ychwanegol. - Cynlluniau peilot newydd sy'n annog arloesedd mewn gofal iechyd. - Rhaglen ychwanegol o gymorth ar gyfer lles staff y GIG. - Cynlluniau bwrsariaeth ar draws sawl maes gwasanaeth Bwrdd Iechyd ar gyfer aelodau cymunedol Powys sy'n rhoi cyfle i fuddiolwyr ddysgu wrth iddynt weithio. - Ymrwymiad i gefnogaeth a buddsoddiad teg ar gyfer pob gwasanaeth a maes gwasanaeth. - Hwb adnoddau digidol pwrpasol i helpu staff a chleifion y GIG i ddod o hyd i gyllid prosiect ym Mhowys.

Yn gysylltiedig ag Amcanion IMTP BIAP:

- 4. Gwella mynediad at ofal sylfaenol cynaliadwy o ansawdd uchel
- 6. Gwella mynediad i wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar o ansawdd uchel i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- 12. Cefnogi gwell mynediad at wasanaethau arbenigol a'u canlyniadau.
- 16. Gwella mynediad i addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel ar draws pob disgyblaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar 'dyfu ein hunain'/prentisiaethau.
- 18. Gweithredu systemau digidol clinigol sy'n galluogi gwell gofal yn uniongyrchol, gan gynnwys rhannu cofnodion clinigol trawsffiniol, blaenoriaethau gwasanaeth clinigol (nyrsio, gofal llygaid, rhagnodi), a theleofal.
- 21. Gweithredu gwelliannau ym maes cyfalaf, ystadau a chyfleusterau sy'n gwella'n uniongyrchol y ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion/y cyhoedd a lles/profiad staff.
- 24. Darpari gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau a phrofiad, gan gynnwys defnyddio a rheoli adnoddau'n effeithiol.

Sefydlu Diwylliant o Gydwethredu

Beth ddywedodd ein Rhanddeiliaid:

Yr hyn y byddwn yn ei gyflwyno:

Trwy bartneriaethau cryf gyda sefydliadau a phrosiectau lleol eraill, gall yr Elusen helpu i sicrhau mwy o gynllunio ar y cyd ar draws gwasanaethau iechyd. Mae'r Elusen hefyd mewn sefyllfa unigryw i gefnogi cydwethrediaadau traws-sector rhwng y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.

- Brand cryf a llwyddiannus i Elusen Iechyd Powys sydd o, gan, ac ar gyfer ein rhanddeiliaid (staff, defnyddwyr gwasanaeth, gwirfoddolwyr, trigolion Powys a phartneriaid trydydd sector).
- Defnydd mwy craff a mwy effeithiol o adnoddau cyfunol drwy gydweithrediaadau newydd gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol yn y gymuned.
- Presenoldeb codi arian mwy yn y gymuned gyda mwy o adnoddau a chyfleoedd i'r rhai sydd eisiau codi arian ar gyfer eu gwasanaethau GIG lleol.
- Llwybr datblygu sefydledig ar gyfer yr Elusen, sy'n cynnwys rhwydwaith gwirfoddoli newydd i'r rhai sydd eisiau rôl fwy gweithredol wrth lunio dyfodol yr Elusen.

	<ul style="list-style-type: none">- Ymgyrchoedd diddorol i ehangu cyrhaeddiad Elusen Iechyd Powys i gynulleidfaoedd newydd trwy rannu a dathlu effaith prosiectau cronfeydd elusennol.- Gwell cydlynu prosiectau ar draws meysydd gwasanaeth ac ysbytai drwy adeiladu ar bartneriaethau rhanbarthol presennol gyda rhanddeiliaid fel Cyngbreiriau Cyfeillion Powys.- Dull arloesol o ymgysylltu ag iechyd a lles drwy fanteisio ar arbenigedd y sector STEAM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, celfyddydau, mathemateg) i ymgysylltu â staff a chleifion.
<p><u>Yn gysylltiedig ag Amcanion IMTP BIAP:</u></p> <p>15. Cyflawni gwelliannau i les ac ymgysylltiad staff, gan weithio'n agos gydag Undebau Llafur mewn Partneriaeth Gymdeithasol ar flaenoriaethau allweddol ar y cyd.</p> <p>23. Datblygu a gweithredu camau allweddol i wella gweithio system integredig/partneriaeth yng Nghymru a Lloegr.</p>	

Cyflwyno a monitro

Caiff cyflawni'r amcanion hyn ei oruchwyllo a'i fonitro gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol fel rhaglen waith allweddol.

Adolygiad o'n blwyddyn

Newidiadau i Staff yr Elusen

Yn ystod y cyfnod adrodd, croesawodd yr elusen Martin O'Brien fel Rheolwr Dros Dro yr Elusen. Daeth penodiad Martin â gweledigaeth ffres a chyfleoedd newydd i'r sefydliad, gan helpu llunio cyfeiriad strategol yr elusen.

Wrth i ofynion a chwmpas rôl y Rheolwr Elusen Dros Dro esblygu, daeth yn angenrheidiol i swydd y Swyddog Cymorth Gweinyddol Elusen addasu yn unol â hynny, gan gymryd cyfrifoldebau ychwanegol i gefnogi amcanion yr Elusen yn well.

Ar ben hynny, gwnaeth cyflwyno rôl Rheolwr Cymorth Elusennau alluogi'r tîm i roi mwy o bwyslais ar gynllunio strategol a datblygu ymgyrchoedd codi arian. Roedd y newid hwn yn caniatáu i'r elusen ganolbwyntio mwy ar godi ymwybyddiaeth a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer twf ac ymgysylltu cymunedol.

Codi arian

Ym mis Rhagfyr 2024, lansiodd dîm yr elusen ei ymgyrch flynyddol gyntaf, sef yr Ymgyrch Dathlu'r Wyl trwy Godi Arian. Cynlluniwyd y fenter galonogol hon i ledaenu hwyl yr ŵyl i gleifion, preswylwyr a mamau beichiog ar draws ysbytai a chartrefi gofal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Nod yr ymgyrch oedd sicrhau bod pawb yn derbyn anrheg Nadolig meddylgar ar Ddydd Nadolig, gan helpu gwneud tymor yr ŵyl yn fwy disglair i bawb.



Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, datblygodd y tîm y cysyniad ar gyfer ail ddigwyddiad codi arian blynyddol, sef Milltiroedd Mai, ddechrau 2025. Amcan yr

ymgyrch hon oedd hyrwyddo lles drwy annog cyfranogwyr i ymgymryd â heriau pluserus, boed yn cerdded, beicio, dawnsio, neu unrhyw weithgaredd yr oeddent yn ei ffafrio ac i olrhain y pellter a deithiasant. Meithrinodd y fenter hon ymdeimlad o ysbryd cymunedol wrth gefnogi cenhadaeth yr elusen.

Prosiectau a Ariennir gan yr Elusen

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaeth Dîm yr Elusen gamau sylweddol o ran cryfhau llywodraethu a thryloywder yr holl fentrau a ariennir. Cafodd prosesau monitro eu canoli a'u gwella, gan alluogi adrodd mwy cadarn i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Sicrhodd y gwelliannau hyn fod y pwyllgor ehangach yn parhau i fod yn wybodus ac yn cael goruchwyliaeth lawn o wariant elusennol.

Gwella Amgylcheddau sy'n Gyfeillgar i Dementia – Defnyddiwyd arian elusennol i wella safle Ysbyty Bronllys, gan ei wneud yn fwy cyfeillgar i ddementia.

Gwasanaethodd y fenter hon fel catalydd ar gyfer cyflwyno arwyddion sy'n gyfeillgar i ddementia yn ehangach ar draws holl safleoedd Powys ddiwedd 2025. Roedd y gwelliannau'n cyd-fynd â Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan, yn enwedig Safon 11, sy'n cefnogi gweithredu Siarter Ysbytai sy'n Gyfeillgar i Dementia Cymru. Roedd y diweddariadau'n cynnwys cynllun paent sy'n gyfeillgar i ddementia ar gyfer wardiau, ardaloedd cleifion allanol ac ystafelloedd dydd, gan wella profiad y claf yn sylweddol.



Realiti Rhithwir mewn Gofal Lliniarol – lle ceisiodd y Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol gefnogaeth elusennol barhaus i ddarparu profiadau Realiti Rhithwir i gleifion lliniarol a chleifion diwedd oes. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd un penset Dr VR yn cael ei ddefnyddio, a ariannwyd gan ein cydweithwyr Celfyddydau mewn Iechyd. Mae tystiolaeth yn cefnogi'r defnydd o realiti rhithwir mewn gofal iechyd fwyfwy, gan ddangos effeithiau cadarnhaol ar boen, gorbryder a lles cyffredinol cleifion. Gan fod y pensetiau yn cael eu prydlesu'n flynyddol, mae'r tîm bellach yn chwilio am gyllid cynaliadwy i barhau i gynig yr offeryn therapiwtig arloesol hwn.

Cefnogi Adferiad Iechyd Meddwl - Lle i gynorthwyo unigolion a gefnogir gan y Tîm Argyfwng, Tîmau Iechyd Meddwl Cymunedol, a'r Ward Iechyd Meddwl Acíwt, ariannodd yr Elusen gynhyrchu cynllunwyr oergell A4 lliwgar gydag arwynebau y gellir eu sychu'n lân a phennau marcio. Helpodd y cynllunwyr hyn gleientiaid i reoli apwyntiadau, creu nodiadau atgoffa am feddyginiaeth, a chynnig awgrymiadau ymarferol gan staff i gefnogi eu taith adferiad.

Cymorth cyn galar i bobl ifanc - Dyrannwyd arian elusennol i ddarparu Hyfforddiant penodol i staff Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gefnogi pobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan oedolyn sy'n derbyn gofal lliniarol. Mae'r hyfforddiant yn cwmpasu sgiliau cyfathrebu sy'n benodol i gyfathrebu â phobl ifanc, yn ogystal â deall y gefnogaeth cyn galar y gellid ei chynnig – cydnabyddir yn eang mai gorau'r gefnogaeth cyn galar a gynigir, y lleiaf yw'r risg y bydd y person sydd wedi galaru yn datblygu ymatebion cymhleth i alar.

Grŵp Celf Therapiwtig ym Machynlleth - Sicrhawyd cyllid i ddarparu grŵp celf therapiwtig ar gyfer cymuned Machynlleth, gan gynnig 45 o sesiynau dros gyfnod o flwyddyn. Cefnogodd y grŵp 6-7 o unigolion ag anghenion iechyd meddwl cymhleth nad ydynt o bosibl yn elwa o therapïau siarad prif ffrwd. Roedd yr holl gyfranogwyr yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl ac wedi derbyn mewnbwn therapiwtig wedi'i deilwra trwy fynegiant creadigol.

Gwella Cysur Cleifion - Lle ariannodd yr Elusen brynu 20 o gadeiriau cleifion newydd, gan gynnwys modelau gorwedd a modelau â chefn uchel i'w defnyddio wrth ochr y gwely ac yn yr ystafell ddydd. Gan fod llawer o gleifion yn treulio cyfnodau hir yn eistedd, roedd y cadeiriau hyn yn gwella cysur yn sylweddol ac yn cyfrannu at amgylchedd gofal mwy urddasol a chefnogol.

Datblygu Cyfleusterau Lles ar gyfer Grwpiau Cymunedol - Cymeradwywyd prosiect newydd i drosi rhan o Floc P yn Ysbyty Bronllys yn gyfleuster Lles pwrpasol ar gyfer grwpiau cymunedol sy'n ymweld. Cafodd yr adeilad, nad oedd yn cael ei ddefnyddio o'r blaen, gymeradwyaeth gan y Grŵp Eiddo a Llety i'w aildefnyddio.

Bydd y cyfleuster yn cynnwys toiled, cegin fach, ystafell orffwys, a lle ar wahân ar gyfer storio PPE a dillad allanol.

Mae darparu gofod lles a rennir yn hanfodol, yn enwedig gan fod disgwyl i nifer o grwpiau cymunedol fod yn weithredol ar y safle. Ni fyddai'n ymarferol nac yn gost-effeithiol i bob grŵp ddod â'u hamwynderau eu hunain na'u caffael. Bydd y cyfleuster hwn yn cynnig lle cyfforddus a swyddogaethol ar gyfer seibiannau, yn enwedig yn ystod tywydd garw, gan gefnogi lles pawb sy'n ei ddefnyddio.

Prosiectau Llai a Gefnogwyd - Yn ogystal â mentrau mwy, cefnogodd yr Elusen nifer o brosiectau llai ond effeithiol:

- Darparwyd £68 ar gyfer Llyfr Gweithgareddau *Ollie the Octopus*, a ddatblygwyd gan y seicolegydd plant a'r awdur Dr. Karen Treisman. Mae'r llyfr yn cynnig taflenni gwaith i helpu plant, a'u gofalwyr, i archwilio themâu colled, galar a phrofedigaeth mewn ffordd gefnogol a hygyrch.
- Dyrannwyd £50 ar gyfer offer gwau sy'n gyfeillgar i ddementia ar gyfer Ward Clywedog, gan helpu cleifion cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrllon.
- Ariannwyd £80 ar gyfer Diwrnod Astudiaeth Cywasgu Llinyn Asgwrn Cefn Metastatig, gyda'r nod o addysgu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar reoli'r cyflwr cymhleth hwn. Roedd y digwyddiad yn trafod trosolwg o'r clefyd, adnabod symptomau, arwyddion rhybuddio, ymchwiliadau radiolegol, opsiynau triniaeth, a rheoli'r bledren/coluddyn, gan gynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cleifion myeloma.

Partneriaethau

Cynghrair y Cyfeillion - Drwy gydol y flwyddyn, bu'r tîm elusen yn gweithio'n agos gyda phob grŵp Cynghrair y Cyfeillion ym Mhowys i sicrhau bod ysbytai a chymunedau'n elwa o gefnogaeth gyfunol Elusen Iechyd Powys a Chynghrair y Cyfeillion.



Er mwyn cryfhau'r partneriaethau hyn, sefydlwyd cyfarfodydd grŵp chwarterol, gan ddarparu fforwm gwerthfawr ar gyfer rhannu gwybodaeth, trafod heriau, a datblygu atebion cydweithredol.

Yn anffodus, ar ôl bron i 50 mlynedd o wasanaeth ymroddedig, caeodd Cynghrair Cyfeillion y Drenewydd yn ystod y cyfnod adrodd. Gweithiodd yr elusen mewn partneriaeth â Chadeirydd Cynghrair Cyfeillion y Drenewydd i sicrhau bod yr holl arian sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i Elusen Iechyd Powys. Yn bwysig, mae'r cronfeydd hyn wedi'u neilltuo i gefnogi Ysbyty'r Drenewydd a'i gymuned, gan sicrhau bod gwaddol Cynghrair Cyfeillion y Drenewydd yn parhau i gael effaith gadarnhaol.

Cydweithio ag Elusennau'r GIG

Mae Elusen Iechyd Powys wedi cyfarfod yn rheolaidd ag Elusennau GIG eraill ledled Cymru. Rhannodd y sesiynau addysgiadol brofiadau o'r un anian, syniadau a chysyniadau newydd ac yn bwysicach fyth, mwy o gytgord ar gyfer y gefnogaeth gyfunol i iechyd a lles pobl Cymru. Cefnogir y cydweithrediad newydd hwn o Elusennau GIG Cymru gan Elusennau GIG Gyda'i Gilydd, gan helpu'r grŵp Cenedlaethol hwn i nodi un pwrpas wrth gadw eu hunaniaeth unigol eu hunain.

Incwm a gwarant

Incwm

Mae incwm gwirfoddol yn cynnwys rhoddion ac etifeddiaethau gan gleifion a'u perthnasau a'u ffrindiau. Roedd cyfanswm yr incwm o £250,964 a dderbyniwyd yn ystod 2024/25 yn cynnwys £52,135 a oedd yn ymwneud â chwe chymynrodd.

Mae rhoddion yn 2024/25 yn cynnwys swm o £21,780 a dderbyniwyd gan wahanol Gynghrair Cyfeillion sy'n gysylltiedig ag Ysbytai Powys (2024: £31,091).

Gwerthfawrogir haelioni pawb a roddodd roddion neu a adawodd waddol yn fawr. Rhoddir dadansoddiad o gyfanswm yr incwm isod.

	2024/25	2023/24
	£	£
Llog a Difidendau	143,342	157,495
Rhoddion	55,487	81,755
Etifeddiaethau	52,135	17,148
Grantiau	0	30,000
	<u>250,964</u>	<u>286,398</u>

Gwariant

Roedd gwariant ar weithgareddau elusennol a Chostau Cymorth yn 2024/25 yn £432,003 (2024: £369,278). Dangosir dadansoddiad o wariant (ac eithrio costau Codi Arian) isod:

	2024/25	2023/24
	£	£
Addysg, Lles a Chyfleusterau Staff	34,921	42,380
Addysg, Lles a Chyfleusterau Cleifion	128,545	105,616
Cyfarpar Meddygol	42,300	72,448
Adeiladu ac Adnewyddu	75,411	18,428
Costau Cymorth	150,826	130,406
	<u>432,003</u>	<u>369,278</u>

Enillion/Colledion ar Asedau Buddsoddi

Buddsoddwyd swm o £2.804M drwy Brewin Dolphin Ltd ym mis Chwefror 2020 ac ar 31^{ain} Mawrth 2025 roedd gwerth y swm yn £3.522M (2024: £3.551M) ac roedd y golled heb ei gwireddu ar y Buddsoddiad yn gyfanswm o £0.025M. Cyfrifir enillion a cholffeydd heb eu gwireddu fel y gwahaniaeth rhwng gwerth marchnad y buddsoddiad ar ddiwedd y flwyddyn a'r gwerth cario agoriadol. Gan nad yw'r buddsoddiadau wedi'u gwerthu'n gorfforol, mae'r newid hwn mewn gwerthuso yn parhau i fod yn elw/colled heb ei wireddu nes bod trafodiad gwerthu yn sylweddoli'r gwerth a'i fod yn dod yn elw/colled wedi'i wireddu.

Elfennau o gronfeydd a gedwir

Gwnaed gwariant o gronfeydd incwm anghyfyngedig a chyfyngedig yr Elusen; mae'r cronfeydd hyn yn cynnwys dwy elfen:

- **Y Gronfa Dibenion Cyffredinol**, sy'n cynnwys arian a dderbynnir gan yr Elusen heb unrhyw ddewis penodol wedi'i fynegi gan roddwyr. Gellir gwneud ceisiadau i'r gronfa hon o unrhyw ardal wasanaeth o fewn BIA Powys. Mae gwariant o'r gronfa hon wedi'i dargedu at brosiectau mewn ardaloedd nad oes ganddynt Gronfeydd Dynodedig ar gael i dalu amdanynt.

- **Cronfeydd Dynodedig**, sydd fel arfer yn cynnwys rhoddion lle enwebwyd rhan benodol o weithgaredd Ysbyty neu Fwrdd Iechyd gan y rhoddwr ar yr adeg y gwnaed eu rhodd. Er nad yw eu henwebiad yn rhwymo'r Ymddiriedolwr, mae'r cronfeydd dynodedig yn adlewyrchu'r enwebiadau hyn ac yn cael eu goruchwyllo gan Reolwyr Gwasanaeth a all wneud argymhellion ar sut i wario'r arian o fewn eu maes dynodedig. Ystyrir argymhellion Rheolwyr Gwasanaeth yn briodol a gellir gwario'r arian hwn ar unrhyw adeg gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol neu'r Cyfarwyddwyr Gweithredol/Cyfarwyddwyr Cynorthwyol.

Polisi cronfeydd wrth gefn

Nod polisi cronfeydd wrth gefn yr Elusen yw sicrhau bod gan yr Elusen ddigon o arian ar gael i gynnal hylifedd, talu am risgiau annisgwyl a darparu ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

Mae'r Elusen yn dibynnu'n fawr ar incwm o roddion, codi arian ac etifeddiaethau. Mae'r rhain yn ffynonellau anrhagweladwy a all amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Felly, mae angen digon o gronfeydd wrth gefn ar yr Elusen i allu parhau â'i gweithgareddau rhag ofn y bydd amrywiadau yn ei hincwm.

Mae gan yr Elusen darged o gronfeydd wrth gefn o £0.823M. Mae hyn yn seiliedig ar y cyfrifiad canlynol, gyda ffigurau cyfartalog wedi'u cymryd o'r tair blynedd diwethaf o gyfrifon wedi'u harchwilio:

- Cost gweinyddu blwyddyn (costau cymorth, costau codi arian a chostau rheoli buddsoddiadau).
- 20% o werth y buddsoddiadau a gedwir.
- 25% o wariant y gweithgaredd a ariennir gan grant.

Bydd lefel darged y cronfeydd wrth gefn yn cael ei hailasesu ddwywaith y flwyddyn.

Bydd yr Ymddiriedolwr yn adolygu'r cronfeydd wrth gefn gwirioneddol a gedwir yn erbyn y targed o leiaf unwaith y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddal o fewn yr Elusen, tra hefyd yn parhau i ddefnyddio arian o fewn cyfnod rhesymol o'i dderbyn.

Adolygiad o gronfeydd, perfformiad a buddsoddiadau

Roedd asedau net y Cronfeydd Elusennol ar 31ain Mawrth 2025 yn £4,182,411 (2024: £4,404,436). Gostyngwyd cyfanswm yr asedau net £222,025.

Mae'r elusen yn parhau i ddibynnu ar roddion ac etifeddiaethau ac incwm buddsoddi fel y prif ffynonellau incwm. Gostyngodd cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn £35,434 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Cynyddodd incwm etifeddiaeth gan £34,987.

Mae gwariant o £447,533 wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2024: £386,673). Cyfanswm y gwariant elusennol ar weithgarwch elusennol uniongyrchol, gan gynnwys costau cymorth, oedd £432,003 ar draws ystod o raglenni.

Prynu offer meddygol newydd

Mae cyfanswm y gwariant ar ddarparu offer newydd ar gyfer BIA Powys o £42,300 (2024: £72,448) yn cynrychioli cyfraniad hanfodol a gwerthfawr at wella'r ddarpariaeth gofal clinigol, o brynu eitemau o offer awdioleg i gadair glaf hydrolog.

Darpariaeth Addysg, Lles a Chyfleusterau Staff

O gyfanswm gwariant Addysg, Lles a Chyfleusterau Staff yn ystod y flwyddyn o £34,921 (2024: £42,380), cyfrannodd yr Elusen £13,451 (2024: £10,380) tuag at ddarparu addysg a hyfforddiant i staff BIA Powys sy'n ymgymryd ag addysg a hyfforddiant proffesiynol pellach.

Darpariaeth Addysg, Lles a Chyfleusterau Cleifion

Mae swm sylweddol o wariant o £128,545 (2024: £105,616) wedi'i godi o dan y pennawd hwn yn ystod y flwyddyn o fentrau bach fel mwy o weithgareddau cleifion mewn ysbytai dydd i ariannu cadeiriau ymlacio ar gyfer ystafelloedd dydd y ward.

Rheoli Perfformiad

Mae Rheolwr yr Elusen a Swyddog Cymorth Gweinyddol yr Elusen wedi cael eu cyflogi i gyflwyno strategaeth newydd ar gyfer yr Elusen ac i gefnogi datblygiad prosiectau, partneriaethau a chynigion newydd i helpu'r Elusen i gyflawni ei nodau ac amcanion elusennol yn y ffordd orau. Mae'r tîm Elusen yn helpu'r Ymddiriedolwr i fonitro cynnydd a pherfformiad cyffredinol cronfeydd elusennol a'u defnydd. Caiff perfformiad y tîm Elusen ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a'r Ymddiriedolwr Corfforaethol er mwyn sicrhau bod yr Elusen yn parhau i gyflawni a darparu cefnogaeth i'w photensial llawn.

Caiff pob cynnig ariannu at ddiben cyffredinol a chynigion sylweddol (uwchlaw £10,000 o werth) eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol gyda chefnogaeth ymlaen llaw gan Bwyllgor Gweithredol BIAP. Mae ceisiadau am gyllid lleol a dynodedig sy'n disgyn islaw'r trothwy uchod angen cefnogaeth gan Gyfarwyddwyr Gweithredol/Cyfarwyddwyr Cynorthwyol ar gyfer y rheolwyr gwasanaeth dirprwyedig sy'n rheoli'r cronfeydd hynny.

Buddsoddiadau

Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol wedi ystyried y risgiau posibl y mae'r Elusen yn agored iddynt. Nid oes unrhyw risgiau mawr wedi'u nodi heblaw am y rhai sy'n gysylltiedig â'r amrywiadau arferol yng ngwerth buddsoddiadau. Mae'r Ymddiriedolwr yn credu bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n briodol. Mae cynghorwyr buddsoddi annibynnol (Brewin Dolphin Limited) wedi cael eu penodi, a delir buddsoddiadau mewn cronfa amrywiol o fuddsoddiadau.

Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn buddsoddi arian yr Elusen gyda Brewin Dolphin Ltd trwy drefniant Portffolio. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 19%, 69%, 5% a 5% wedi'u buddsoddi mewn Incwm Sefydlog, Ecwiti, Dewisiadau Amgen a Buddsoddiadau Eraill yn y drefn honno, gyda'r 2% sy'n weddill yn cael eu dal fel asedau arian parod.

Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn parhau i ystyried ei amlygiad i'r amrywiadau yng ngwerth ei fuddsoddiad sy'n seiliedig ar ecwiti, ac yn derbyn adroddiad perfformiad buddsoddiadau chwarterol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.

Yn unol ag ethos hyrwyddo lles cleifion, mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn ceisio sicrhau bod pob buddsoddiad yn foesebol ac yn amgylcheddol gadarn ac nad ydynt yn groes i brif bwrpas yr Elusen. Mae'r mandad moesebol hwn yn cael ei

ddehongli gan ein Rheolwyr Buddsoddi ac mae'n llywio cyfansoddiad ein portffolio. Mae'r ystyriaethau moesegol hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd bob chwarter.

Strategaeth yr Ymddiriedolwr Corfforaethol yw bod arian yn cael ei wario mewn modd amserol ar ôl ei dderbyn. Mae'r Elusen wedi datblygu'r strategaeth hon ymhellach i dargedu cronfeydd a arhosodd yn segur am gyfnod o dros 12 mis er mwyn sicrhau bod y cronfeydd sydd wedi'u cronni dros nifer o flynyddoedd yn cael eu targedu a'u dosbarthu'n deg lle bo modd.

Ar hyn o bryd mae'r gwaith hwn yn cael ei weithredu drwy'r tîm Elusen, sy'n cefnogi amcanion yr Ymddiriedolwr Corfforaethol, yn ogystal â chefnogi rheolwyr gwasanaeth, uwch dimau gweithredol a rheolwyr cyfarwyddiaeth i ddatblygu cynigion strategol i ddefnyddio cronfeydd drwy gydol y flwyddyn.

Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf

Rydym yn bwriadu lansio ein gwefan newydd y flwyddyn nesaf, a fydd yn gwella ein gallu i adeiladu rhwydweithiau, cryfhau cysylltiadau cyhoeddus, a chynyddu gwelededd yr elusen. Bydd hyn yn llwyfan gwerthfawr i rannu ein gwaith a chysylltu â chynulleidfa ehangach.

Yn y flwyddyn nesaf, byddwn hefyd yn cymryd camau gweithredol i gryfhau ein brand, gan sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau yn gyson, yn glir, ac yn adlewyrchu ein gwerthoedd. Bydd hyn yn cefnogi mwy o gydnabyddiaeth ac ymddiriedaeth ar draws pob agwedd ar ein gwaith.

Gan adeiladu ar lwyddiant Dathlu'r Wyl trwy Godi Arian eleni, rydym yn datblygu ymgyrchoedd blynyddol newydd i ymgysylltu â'n cymuned drwy gydol y flwyddyn. Un fenter o'r fath yw *Milltiroedd Mai*, her hwyliog a chynhwysol sydd wedi'i chynllunio i annog lles. Bydd cyfranogwyr yn gosod nodau personol, yn olrhain eu cynnydd drwy gydol mis Mai, ac yn dod at ei gilydd i ddathlu pa mor bell y gallwn fynd gyda'n gilydd.

Byddwn hefyd yn dechrau paratoi ar gyfer adnewyddu ein strategaeth elusennol. Bydd y broses hon yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i fyfyrion ar ein cyflawniadau ac archwilio blaenoriaethau'r dyfodol, gan sicrhau bod y strategaeth yn parhau i ddiwallu anghenion y cymunedau a wasanaethwn.

Bydd yr Elusen hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid, rhoddwyr, staff a rhanddeiliaid eraill i ychwanegu budd i boblogaeth Powys sy'n derbyn gwasanaethau gofal iechyd. Felly, bydd cynlluniau incwm a gwariant yn destun adolygiad parhaus i sicrhau bod anghenion y dyfodol yn cael eu blaenoriaethu yn

unol â hynny. Dylai pob blaenoriaeth yn y dyfodol ar gyfer Elusen BIAP adlewyrchu disgwyliadau ei rhanddeiliaid o'r hyn y gall ei gyflawni ac ategu amcanion strategol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Yn olaf, byddwn yn adolygu ein dull cyfathrebu i sicrhau ei fod yn dod yn fwy seiliedig ar straeon. Yn hytrach na rhannu'r hyn a wnawn yn unig, ein nod yw tynnu sylw at effaith wirioneddol ein gwaith trwy leisiau a phrofiadau pobl ledled Powys.

Diolch am eich cymorth

Ar ran y cleifion, y staff ac aelodau'r gymuned sydd wedi elwa o'r grantiau, y rhoddion a'r etifeddiaethau, hoffai'r Ymddiriedolwr Corfforaethol ac Elusen Iechyd Powys ddiolch i bob sefydliad, claf, perthnasau, ffrindiau a staff sydd wedi gwneud rhoddion neu gyfraniadau elusennol yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi cael ein llethu gan haelioni ein cymunedau eleni ac am hynny ni allwn ddiolch digon iddynt.

Os ydych chi eisiau dysgu mwy am Elusen Iechyd Powys a sut allwch chi gefnogi, ewch i wefan yr Elusen: www.eluseniechypowys.cymru neu cysylltwch â'r Elusen yn PTHB.Charity@wales.nhs.uk.



Dr Carl Cooper

Cadeirydd

**Bwrdd Iechyd Lleol
Addysgu Powys**



Mrs H Thomas

Prif Weithredwr

**Bwrdd Iechyd Lleol
Addysgu Powys**

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr mewn perthynas ag Adroddiad yr Ymddiriedolwr a'r datganiadau ariannol

O dan gyfraith elusennau, mae'r Ymddiriedolwr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwr a'r datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n dangos darlun gwir a theg o gyflwr materion yr elusen ac o'r gormodedd incwm dros wariant ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn golygu bod yr Ymddiriedolwr:

- yn dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna'n eu cymhwyso'n gyson;
- yn gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- yn nodi a yw argymhellion y Datganiad o Arfer Argymhelliedig FRS 102 wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw amrywiadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol;
- yn nodi a yw'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r weithred ymddiriedolaeth, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;
- yn paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau â'i gweithgareddau.

